


Adferiad Amgylcheddol yn Sellafield



GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:

Sellafield, Cumbria

GWERTH Y PROJECT:

£2bn y flwyddyn

AMSERIAD/HYD Y PROJECT:

Mae'r gwaith gydol oes yn rhedeg tan 2120

Trosolwg o'r project

Mae'r gwaith yn Sellafield yn amrywio o lanhau risgiau a pheryglon niwclear uchaf y wlad i ddiogelu tanwydd, deunyddiau a gwastraff niwclear. Mae ein cenhadaeth yn bwysig yn genedlaethol. Ein pwrpas yw cadw Sellafield yn ddiogel, gan lanhau'r safle i gyflwr terfynol diffiniedig.

Manylion y datrysiad/dull gweithredu

Rydym yn gweithio mewn ffyrddiau gwerth, gan flaenoriaethu'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud i sicrhau'r gwerth mwyaf. Ar hyn o bryd mae gennym bedair ffrwd werth:

- **Adalw** – rydym yn adalw gwastraff, tanwydd a slwtsh niwclear sy'n cael eu storio y tu mewn i'n pyllau a'n seilos gwaddol, y risgiau a'r peryglon uchaf yn Sellafield.
- **Adferiad** – y tu hwnt i'r pyllau a'r seilos gwaddol, mae gennym gannoedd o gyfleusterau niwclear ac aniwclear yn Sellafield y mae angen eu glanhau.
- **Rheoli tanwydd niwclear sydd wedi darford** – ar hyn o bryd rydym yn ailbrosesu tanwydd niwclear. Mae hynny'n golygu cymryd y tanwydd sydd wedi'i ddefnyddio y tu mewn i orsaf ynni niwclear a

thynnu cydrannau unigol plwtoniwm, wraniwm a gwastraff. Yn y dyfodol byddwn yn storio tanwydd yn lle ei ailbrosesu.

- **Deunyddiau niwclear arbennig** – mae gennym y cyfleusterau a'r arbenigedd i ddarparu storfa ddiogel a phriodol ar gyfer deunyddiau niwclear arbennig.

Mae gweithredu safle Sellafield hefyd yn cynnwys:

- **Rheoli gwastraff niwclear** – ni yw'r unig sefydliad sy'n gallu rheoli pob un o'r tri math o wastraff niwclear yn ddiogel: uchel, canolradd ac isel.
- **Seilwaith** – mae ein gweithrediadau o ddydd i ddydd yn Sellafield yn dibynnu ar argaeledd ystod o wasanaethau, o olchfa ar y safle i rwydwaith rheilffyrdd cynhwysfawr.